# Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 1af Mis Tachwedd 2023

**Presennol**
Cynghorwyr - D Jones, F Cauley, E Lewis, B Jones, P Jones, I Edwards, S Evans, R Ashton a G Davies

**Ymddiheuriadau** - E Davies (Cadeirydd), G Mitchell (Powys)

Cynnigiodd yr Is-Cadeirydd, R Ashton, croeso cynnes i bawb

**Cyflwyniadau –**

**Datganiadau diddordeb** –

**Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 4ydd Hydref 2023**
Pawb yn gytun

**Materion yn codi**
1. Parcio ceir ym mhentref Llan - Mae Ben Davies wedi dod a llwyth o 'planings' i lenwi ambell i bant ar y safle ond mae yna problemau eraill i'w ddatrus. F Cauley a S Reast i cwrdd ar y safle
2. Cais am llwybr seiclo o gwmpas y Cae Cymunedol - Mae S Reast a Bethan Jones (Pennaeth Ysgol Llanbrynmair) wedi cwrdd a Barry Jones, torrwr coed, ar y cae i drafod y gwaith clirio yn ol adroddiad CSP
3. Cynnig ail agor y gorsaf rheilffordd yn Llanbrynmair - Cyflwynwyd erthygl (Paul Atkins, Local Transport Today) yn son am amryw o ffactorau ar y lein yn cynnwys niferoedd o teithwyr yn defnyddio'r gorsaf newydd yn Bow Street
4. Cyfleusterau cyhoeddus - Mae Mark Shelley wedi trwsio'r 'flush' ond mae yna toiled arall yn y dynion sydd yn siglo ac angen ei gosod yn gadarn ar lawr. Credwyd fod y goleuadau yn gweithio'n iawn. Mae S Reast wedi gofyn i Peter Lamb edrych ar y darn o to sydd yn gollwng dwr ac yn achosi difrod i'r nenfwd yn toiledau'r merched. Cynnigodd E Davies clirio'r sbwriel tu ol yr adeilad. Mae S Reast yn cael cyfarfod gyda cwmni paneli solar ar y 22ain o Tachwedd
5. Hysbysfyrdd - Cyflwynwyd ymchwil drwyadl ar gwahanol opsiynnau hysbysfyrdd ar y farchnad gan F Cauley. Cytynwyd i brynu un newydd i Bont. F Cauley a S Reast i cydlynnu ar y dewisiad terfynol
6. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Mae diffibrilwr newydd wedi ei osod yn Nhafolwern. I Edwards i danfon manylion offer newydd ar gyfer salfeoedd eraill i S Reast i'w archebu. Nid oes cadarnhad ar lleoliad diffibrilwr Bont eto wedi i'r garej cael ei brynu
7. Ystyried offer newydd yn y Cae Chwarae - Cais loteri ar y gweill
8. Cynllyn hyfforddi – R Ashton wedi gwneud hyfforddiant Cadeirio
9. Gwifren BT ar lawr wrth croesfan Bont – Mae Open Reach wedi gaddo gwneud rhywbeth am y gwifren tra byddent yn yr ardal
10. Sietyn wrth Pont Bel – S Evans wedi rhoi cyfeiriad perchnogion Ty'n Ddol i S Reast i ysgrifennu atynt
11. Carthion yn yr afonydd – Cyflwywyd diweddariad gan Emily Payne, Dwr Cymru yn amlinellu'r gwelliannau sydd i ddod

12. “Concealed entrance”, Maes yr Efail – S Reast wedi cwrdd a perchnogion safle’r hen garej ac wedi derbyn cadarnhad eu fod yn hapus i cael y drych wedi ei osod ar polyn yn y sietyn ar eu tir yn gwynebu mynediad Maes yr Efail
13. Tender i torri gwair yn y cae chwarae – Mae rhisgl coed wedi cael ei rhoi ar lawr y twnel helyg ac ar ffin y parc
14. Station House, Talerddig – Dim diweddariad
15. Torri gwair rhwng Wynnstay a’r ffarm – Cytynwyd mae cyfrifoldeb perchenog y tir ydy’r coed a’r gwair heblaw am yr ymylon sydd yn cael ei wneud gan yr Asiant Cefnffyrdd
16. Biniau ar gwaelod ffordd Bryneinty – S Reast wedi ysgrifennu at Powys i ofyn os gall un o’r loriau bach fynd i fyny’r ffordd fach yn hytrach na gorfodi’r trigolion i gyd i ddod a’r sbwriel i’r gwaelod – dim diweddariad
17. ‘Weedkiller’ o gwmpas pyst arwyddion – Cyflwynwyd ymateb gan Powys yn amlinellu’r her, rhaid cael balans rhwng diogelwch staff a teithwyr, cost y gwaith ac effeithrwydd. Mae Powys yn defnyddio gwahanol dulliau i rheolu chwyn yn dibynnu ar eu lleoliad
18. Lloches Bws Dolfach – Mae perchnogion y Faenol yn hapus i cael y lloches bws newydd ar ffiniau eu tir nhw. S Reast i cydlynnu cyfathrebiad rhyngddynt a Traws Cambria – dim diweddariad
19. Gerddi fler yn Rhif 2 a 13, Glanclegyr – Mae’r problemau yn parhau yn rhif 2
20. Tocio’r shetyn a mieri yn Bont – Gwaith ar y gweill gan Josh Reast
21. Bainc yn Dolfach – Cyflwynwyd costau am beinciau newydd. Cytywnyd i archebu dau, un i Dolfach ac un i Llan. S Reast i gofyn am caniatad gan Powys i leoli bainc ar tir yn Dolfach
22. Sied wedi torri yn y cae chwarae – Fydd yr ysgol yn hapus iawn i derbyn y sied
23. Hysbysfwrdd yn Nhalerddig – Ni lwyddodd F Cauley i agor yr hysbysfwrdd. I Edwards i edrych arno fo eto
24. Hysbysfwrdd yn Llan – Cytynwyd symud yr hysbysfwrdd wrth yr hen siop i Llan. Fydd angen caniatad gan perchnogion yr ysgubor i’w osod o ar y wal yn gwynebu’r maes parcio
25. Ffair y ganolfan – Codwyd £74.00 ar stondin boteli Ffair y Ganolfan a chyfanswm o £565.00 ar bopeth
26. Ymateb i’r rali – S Reast i ysgrifennu at y trefnwyr yn gofyn am gwell cyfathrebiad gyda trigolion lleol y tro nesaf
27. Arwyddion baw cwn – Cytynwyd i archebu hanner dwsin ychwanegol
28. Coed peryglus ar y ffordd tua croesfan Bont – S Reast i trafod efo perchnogion y tir
29. Llwybr o Dolfach i Llanbrynmair ac i troiad Tafolwern – Cyflwynwyd ymateb i holiaduron 2021 yn ceisio casglu tystiolaeth i ddangos yr angen. Nid oes yna opsiwn amlwg i ariannu llwybr ar hyn o bryd
30. ‘Gullies’ cyferbyn a’r Felin wrth troiad Cwm Ffynnon – S Reast i ofyn i Powys am amserlen gwaith
31. Tai Cyngor wag – wedi ei trafod o dan 19
32. Pyst gwyn ger ffordd Pandy – Dim diweddariad
33. Diweddariad ar Patient’s Forum – Fydd S Evans yn cymeryd lle E Lewis ar y fforwm ac fydd F Cauley yn gadeirydd
34. Sul y Cofio – Cyflwynwyd y trefniadau a’r posteri

35. Defib yn Dolfach – I Edwards i edrych i mewn i costau

**Materion ffyrdd**

- Llinellau gwyn wrth Yr Efail a Bryncoch – G Mitchell i pwyso ar Powys i wneud y llinellau tra fydd rheini ar y ffordd newydd yn cael eu wneud – dim diweddariad
- Cerrig gwyn wrth ymyl Ffordd Pandy – G Mitchell wedi camddeallt y lleoliad penodol. R Ashton i rhoi cyfeiriad What3Words iddo
- Cyflymder traffig ar y briffordd i mewn i'r pentref – S Reast wedi derbyn ymateb gan GoSafe ond mae angen fwy o wybodaeth
- Goleuadau wrth Dolgoch – Cafwyd ymateb gan Asiantaeth Cefnfyrdd yn egluro bod gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ond dim byd ymarferol eto
- Draen wrth yr Hen Gapel – S Reast i ysgrifennu at Powys – trafodwyd lleoliad y broblem a'i marcio ar fap
- Pen draw ffordd Pandy – S Reast wedi adrodd i Powys
- Ffordd yn disgyn islaw Lluest – S Reast wedi adrodd i Powys

**Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)**

**Gohebiaeth**

- Rhaglen Mwyngloddiau Metel (ac eithrio glo). Llygredd o fwyngloddiau metel segur

**Cynllunio**

- 23/1164/FUL | Erection of 3 no. 3 bed dwellings (terraced) including landscaping, vehicular access and all associated works | Land At Cae Bryncoch Llanbrynmair Powys SY19 7DL – Cyflwynwyd ymateb gan yr adran cynllunio yn esbonio'r polisi ynglyn a tai afforddadwy
- 23/0499/FUL | Erection of agricultural building and 3 x poly tunnels for horticultural use (retrospective) | Gardd Afon Tafolwern Llanbrynmair SY19 7DT – Dim diweddariad

**Cyfriflen a balans ariannol**

Ar gael ar 28/10/2023

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cyfredol | £6806.20 |
| Cyfrif Cadw | £2,899.01 |
| Cyfanswm | £9705.20 |
| Sieciau heb eu cyflwyno | £1979.00 |
| Balans ar gael | £7726.20 |

**Ceisiadau a thaliadau ariannol**

| Dyddiad | Eitem | Cyfans | Rhif y | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|

| cytunwyd | | wm | cheque | |
|---|---|---|---|---|
| 01/11/23 | Cyflog y Clerc | £368.00 | | |
| 01/11/23 | Treth ac NI ar cyflog y Clerc (Gorffenaf) | £92.00 | | |
| 01/11/23 | Andrew Evans Landscaping – torri gwair yn cae chawrae | £1980.00 | | Cytynwyd i trosglwyddo'r cost i Ymddiriedolaeth y Fferm Wynt |
| 01/11/23 | Mark Shelley | £70.00 | | Wedi talu |
| 01/11/23 | E.ON Next | £15.46 | | |
| 01/11/23 | Arfon Hughes, Gwasanaethau cyfieithu | £140.00 | | |
| 01/11/23 | Ambiwlans Awyr | £100.00 | | |

**Unrhyw fater arall**

- **L**oriau coedwigedd yn creu problemau amser cludo plant i'r ysgol. S Reast i **y**sgrifennu at Kieron Owen a Les Hughes gan copio G Mitchell i mewn – mae llawer o'r gwaith cludo coed wedi dod i ben, cytynwyd i gadael pethau am y tro

**Eitemau ar gyfer yr agenda nesa**

- F Cauley – Ymylon y ffordd rhwng Bont a Talerddig ac rhwng Bont a Llan
- F Cauley – Pont wedi ei tharo
- G Davies – Ffos uwchben Penfilltir, gwreiddiau ar y ffordd
- G Davies – Ffordd yn gollwng wrth Craig yr Henffordd
- B Jones – Binniau halen
- D Jones – Goleuad wrth Pengeulan, angen tocio'r coed o'i cwmpas
- B Jones – Goleuadau stryd ymlaen yn ystod y dydd

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher 6ed Mis Rhagfyr2023**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 3ydd Ionawr 2024**

Sarah Reast
Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair